Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen gwariant ymgeisydd a datganiad ar gyfer etholiadau plwyf a chymuned yng Nghymru a Lloegr

Dylech ddarllen y canllaw perthynol ar gyfer Etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr: Rhan 3 gwariant a rhoddion am wybodaeth ar:

- y cyfyngiad gwariant
- y cyfnod a reoleiddir
- beth yw gwariant ymgeisydd
- gwariant tybiannol

Rydym yn darparu canllaw cyflym yma ynglŷn â beth sy'n wahanol pan fyddwch yn ymgeisio mewn etholiad lefel plwyf neu gymuned.

Fe ddewch o hyd i'r canllaw ar ein :

- Tudalen gyfarwyddyd ar gyfer etholiadau plwyf a chymuned

Ar gyfer pwy mae'r ffurflen hon:

Ymgeiswyr yn sefyll ar gyfer etholiad mewn etholiadau ar lefel plwyf a chymuned p'un a oes gwrthwynebydd yn yr etholiadau neu beidio.

Y ffurflen wariant

Chi sy'n gyfrifol am gadw'ch gwariant o fewn eich cyfyngiad gwariant yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Gallwch benodi asiant i'ch helpu gyda'ch ymgyrch, ond chi fydd yn gyfrifol am reoli'ch gwariant etholiad eich hun.

Rhaid i chi gwblhau a dychwelyd y ffurflen a datganiad ymgeisydd ac yna eu cyflwyno i'ch swyddog canlyniadau o fewn **28 niwrnod calendr** i dyddiad yr etholiad.

Cofnodi gwariant ymgeisydd

Rhaid i chi gadw cofnod o'ch holl wariant fel ymgeisydd a rhaid i chi gadw anfonebau neu dderbynebau ar gyfer bob taliad o £10 neu fwy. Rhaid i chi gyflwyno'r anfonebau a derbynebau hyn gyda'ch ffurflen.

Ar ôl yr etholiad

Pwysig

Os yw unrhyw ddyddiad cau yn y canllawiau hyn yn dod ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, y dyddiad cau fydd y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl hynny

Anfonebau

Rhaid i chi gael pob anfoneb gan gyflenwyr o fewn **14 niwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Os nad ydych yn derbyn anfoneb o fewn y cyfyngiad amser, bydd angen i chi gael gorchymyn llys cyn y gallwch ei dalu. Dylech roi gwybod i'ch cyflenwyr am hyn.

Talu anfonebau

Rhaid i chi dalu anfoneb o fewn **21 niwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad. Os nad ydych yn talu'r anfoneb o fewn y cyfyngiad amser hwn, bydd angen i chi gael gorchymyn llys cyn y gallwch ei dalu.

Pan fyddwch wedi penodi asiant

Os yw'r asiant wedi gwario arian ar eich rhan, yna rhaid iddo eich darparu â ffurflen ysgrifenedig yn manylu ar yr hyn y meant wedi ei wario. Rhaid iddynt ei roi i chi o fewn **23 niwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Cyflwyno'r ffurflen

Pwysig

Rhaid i chi gwblhau a chyflwyno'r ffurflen hon a'r datganiad i'r swyddog canlyniadau o fewn **28 niwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Nodiadau eglurhaol

Manylion yr ymgeisydd a'r etholiad

Darparwch y manylion y gofynnir amdanynt o dan yr adran hon a llofnodi'r ffurflen os gwelwch yn dda.

Cyfrifwch eich cyfyngiad gwariant a'i roi ar y ffurflen.

Eich cyfyngiad gwariant yw £740, a 6c i bob etholwr llywodraeth leol yn y plwyf, cymuned neu ardal cyngor tref ble rydych yn sefyll.

Os ydych yn ymgeisydd ar y cyd, bydd angen i chi leihau eich cyfyngiad gwariant o:

- chwarter (25%) – pan fydd dau ymgeisydd ar y cyd, neu
- draean (33%) – pan fydd tri ymgeisydd ar y cyd neu fwy

Gallwch ddod o hyd i'r etholaeth, sef y nifer o bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio ar ddydd olaf cyhoeddi'r hysbysiad o etholiad gan eich Swyddog Canlyniadau.

Rhan 1: Crynodeb o wariant

Cwblhewch y tabl crynhoi i ddangos eich gwariant yn ystod ymgyrch yr etholiad.

Dylid nodi unrhyw wariant tybiannol a hawliadau heb eu talu yn y blychau penodol a ddarparwyd.

Os nad ydych wedi gwario unrhyw arian dan gategori penodol, rhowch 'dim' yn y blwch priodol.

Rhan 2: Taliadau

Dadansoddiad o wariant

Defnyddiwch y tabl hwn i ddarparu dadansoddiad o'r holl daliadau sy'n creu'r swm a ddangosir dan gategorïau A i I yn y tabl crynodeb (Rhan 1).

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhowch fanylion:

- yr eitem neu'r gwasanaeth a ddefnyddiwyd
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y dyddiad y talwyd yr anfoneb
- y dyddiad y derbyniwyd yr anfoneb
- y swm a dalwyd

- rhif yr anfoneb neu dderbynneb. Mae anfonebau neu dderbynebau yn ofynnol ar gyfer pob eitem o £10 neu fwy ac eithrio gwariant tybiannol

Cofiwch nodi pan fyddwch yn cofnodi taliad 'dim'.

Pwysig

B Hawliadau heb eu talu

Defnyddiwch y tabl hwn i ddweud wrthym am hawliadau sy'n parhau heb eu talu ar y diwrnod yr ydych yn cyflwyno'r ffurflen.

Ar gyfer pob hawliad, rhowch fanylion:

- yr eitem
- y dyddiad y derbyniwyd yr anfoneb
- y swm
- y gweithredu a wnaed neu sydd i'w wneud parthed yr hawliad hwn

Cynhwyswch fanylion y llys yr ydych wedi gwneud cais iddo, neu y byddwch yn gwneud cais iddo, i wneud taliad hwyr.

C Datganiad o werth gwariant tybiannol dros £50

Defnyddiwch y tabl hwn i ddweud wrthym am yr holl eitemau o wariant dros £50.

Nid oes angen i chi roi gwybod i ni ynglŷn â gwariant tybiannol o £50 neu lai. Nid oes rhaid i chi gynnwys hyn ar y ffurflen ac nid yw'n cyfri tuag at eich cyfyngiad gwariant.

Ar gyfer eitemau o wariant tybiannol, dywedwch wrthym:

- yr eitem neu'r gwasanaeth a ddarparwyd
- cost fasnachol arferol yr eitem/gwasanaeth
- y gwir gost a dalwyd gennych fel y cofnodwyd yn Rhan 2 tabl A
- gwerth gwariant tybiannol
- pryd wnaethoch chi gyflawni'r gwariant hwn

Pwysig

Rhaid i chi lofnodi'r adran hon o'r ffurflen p'un a gafwyd unrhyw wariant tybiannol neu beidio.

Llenwi ac anfon y ffurflen hon at y Swyddog Canlyniadau

Pwysig

Dylech gwblhau a dychwelyd y ffurflen at y Swyddog Canlyniadau ar gyfer eich ardal etholiadol. Rhaid cyflwyno'r **28 diwrnod calendr** ar ôl diwrnod yr etholiad.

Os yw unrhyw ddyddiad cau yn y canllawiau hyn yn dod ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith, y dyddiad cau fydd y diwrnod gwaith cyntaf ar ôl hynny

Rhaid cynnwys y datganiad wedi ei lofnodi gennych chi i wirio'r ffurflen wariant gyda'r ffurflen.

Ble allaf i gael rhagor o gyngor?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am wariant etholiad ymgeiswyr, gallwch ein ffonio ar:

- Lloegr: 020 7271 0616
  pef@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 020 2034 6800
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ewch i'n gwefan yn www.comisiwnetholiadol.org.uk